# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Tachwedd 14eg 2023 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Parc. Yn bresennol oedd Huw Charles (cadeirydd), Arwel Davies, Catrin Roberts, Rhys Richards, Euros Puw, Gwynfryn Williams, Rhys Jones, Geraint Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jean Roberts.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Hydref a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Prosiect Bioamrywiaeth.
Roedd y clerc wedi cysylltu â'r Parc Cenedlaethol ac roedd eu swyddogion bioamrywiaeth yn awyddus iawn i gydweithio ar brosiectau gyda'r Cyngor Cymuned a'r mudiadau lleol ac efallai byddai peth arian ar gael ar gyfer hyn.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn.
i) Costau torri llwybrau - oherwydd toriadau yn y swm a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd ar gyfer torri llwybrau troed yr ardal a'r cynydd yn y costau o wneud y gwaith roedd arian tu cefn y Bartneriaeth yn lleihau bob blwyddyn. Derbyniwyd cais am arian tuag y golled a wnaed eleni ac yna ar gyfer 2024-25. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gyfrannu £30 eleni a ychwanegu'r gost llawn i gyllideb 2024-25.

b) Amrywiol.
i) Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – adroddiad blynyddol drafft.
ii) Dŵr Cymru yn Llyn Celyn – gwahoddiad i sesiwn friffio 30/11/23. Cytunodd Geraint Jones, Euros Puw a Rhys Richards fynychu'r cyfarfod.
iii) Mabon ap Gwynfor – gwahoddiad i gyfarfod, 14/12/23, i drafod newidiadau i'r gwasanaeth bws T3. Nid oedd y cynghorwyr yn teimlo bod y newidiadau yma yn effeithio'r trigolion lleol.
iv) Llywodraeth Cymru – adolygiad o iechyd democrataidd yn y sector cynghorau cymuned a thref.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**
a) Byd Mary Jones, Llanycil – derbyniwyd ebost ganddynt yn egluro eu bwriad i newid yr arwyddion wrth fynedfa'r safle. Nid oedd gan y cynghorwyr unrhyw wrthwynebiad.

**vi) Materion Ariannol.**
a) Llywodraeth Cymru.
i) Swm priodol o dan adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2024-25.

b) Adolygu cyflog a chostau'r clerc.
Cytunwyd i'w gadw run fath ar gyfer 2024-25 gydag arian ar gael i dalu unrhyw oriau ychwanegol fyddai'r clerc yn gorfod hawlio.



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

c) Cyllideb a Praesept 2023/24.
i) Cytunwyd i gynyddu'r arian ar gyfer yswiriant, ffioedd archwilio, cyfraniad i Bartneriaeth Penllyn (llwybrau) a tal aelodaeth Un Llais Cymru. Cytunwyd i leihau cyllideb offer swyddfa gan nad oedd angen gwariant ar unrhyw offer sylweddol.

ii) Cytunwyd fod digon o arian i gefnogi prosiectau lleol ac fel bod dros 3 mis o wariant gros y cyngor tu cefn. Cytunwyd i gadw'r Praesept ar £4,500 ar gyfer 2024-25.

ch) Taliadau.
Cytunwyd i dalu'r canlynol:-
i) Cyflog a chostau'r clerc (Hyd-Rhag).
ii) TWE
iii) Hannah Gwenllian Web Designs (Gwefan).
iv) Partneriaeth Penllyn.

d) Ceisiadau Ariannol.
i) Derbyniwyd cais gan Theatr Bara Caws. Cytunwyd i ddilyn y drefn arferol a'i drafod yn ein cyfarfod ym mis Mawrth.

**vii) Unrhyw Fater Arall.**
a) Cais am fin halen ger Bryn Golau, Rhyduchaf – roedd y clerc eisoes wedi pasio'r mater yma ymlaen i Gyngor Gwynedd ac yn dilyn ymweliad gan eu swyddog priffyrdd roeddynt wedi ysgrifennu at y preswylwyr i'w cynghori na fyddant yn lleoli bin newydd yno.
b) Fan ger Tyddyn Ronnen, Llidiardau – roedd y clerc wedi derbyn cwyn fod y cerbyd yn amharu ar gerbydau eraill yn ceisio pasio ac roedd hyn wedi achosi difrod i'r clawdd gyferbyn. Roedd y clerc wedi pasio'r mater ymlaen i Gyngor Gwynedd ond nid oeddynt yn gweld problem yno ar hyn o bryd. Nodwyd hefyd fod nifer o gerbydau wedi parcio gyferbyn a'i gilydd yn yr Arenig ac efallai byddai cerbydau argyfwng yn methu pasio. Gofynnwyd i'r clerc basio'r pryder yma ymlaen i Gyngor Gwynedd.

## Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Chwefror 13eg am 8.00 y.h. yn Neuadd Parc.


Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….